cbac wjec

**TGAU**

3010N30-1A

S24-3010N30-1A

**DYDD IAU, 18 EBRILL 2024 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG
## UNED 3: Asesiad Llafar
## HAEN SYLFAENOL

## CYFARWYDDIADAU I'R ATHRO/ATHRAWES

**Tasg Grŵp (trafodaeth: dim mwy nag 20 munud)** **40 marc**

**CYFNOD PARATOI**

- Caniateir hyd at 25 munud i'r ymgeiswyr baratoi ar gyfer y drafodaeth.
- Yn ystod y cyfnod paratoi ni chaniateir defnyddio unrhyw nodiadau a dderbyniwyd o flaen llaw.
- Caniateir i'r ymgeiswyr wneud **nodiadau byr/pwyntiau bwled** yn ystod y cyfnod paratoi a gallant ddefnyddio'r rhain yn ystod yr asesiad.
- **Ni chaniateir i'r ymgeiswyr ddefnyddio'r testun print na geiriadur yn ystod y cyfnod paratoi na'r cyfnod asesu.**

**Swyddogaeth yr athro/athrawes**

Dylai pob grŵp geisio bod mor hunan-gynhaliol â phosibl ond os oes angen dylai'r athro/athrawes:

- gyflwyno'r dasg i ddechrau'r drafodaeth
- sicrhau bod y grŵp yn dechrau ac yn parhau'r drafodaeth
- hybu newid cyfeiriad yn ôl gallu'r grŵp a gofalu bod yr ymgeiswyr yn trafod yr isgwestiynau i gyd
- ymyrryd pan fo angen, yn arbennig pan fo'r sgwrsio'n ddibwrpas ac yn cuddio diffyg gwybodaeth a syniadau neu pan nad yw'r wybodaeth neu'r dystiolaeth sydd ganddynt yn berthnasol i'r cwestiwn
- bod yn hyblyg a derbyn pob syniad lle mae tystiolaeth i'w gadarnhau
- gofalu bod y drafodaeth yn cael ei chloi o fewn 20 munud.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**TRAFOD LLUNYDDIAETH**

**Naill ai:** **Y Weithred** (Testun print – 'Epynt')

**Neu:** **Y Gwyll** (Testun print – 'Tân')

## Trafodwch y gwahanol olygfeydd sy'n creu tensiwn yn y ffilm.

Fel grŵp, trafodwch hyn drwy:

(i) sôn yn fanwl am olygfeydd penodol [20]

(ii) sôn am y modd y mae'r cynhyrchydd wedi dangos hyn yn y ffilm.

Gallwch drafod:

- gwisgoedd a cholur
- deialog
- goleuo
- gwaith a thechneg camera
- cerddoriaeth a sain. [20]

Ceisiwch hefyd gyfeirio at y testun print yn eich trafodaeth.

Ceisiwch ddefnyddio termau gwerthfawrogi llunyddiaeth/llenyddiaeth.

Cofiwch roi rhesymau dros eich barn.

**[40]**

**DIWEDD YR ASESIAD**

**HAEN SYLFAENOL**

**Dylai'r ymgeiswyr gydadweithio fel grŵp wrth drafod y cwestiynau.**

| | | |
|---|---|---|
| | **36 – 40** | |
| AA1 | • arddangos gwybodaeth am y ffilm gan gyfeirio'n fanwl lle bo hynny'n briodol at y stori a'r sefyllfa<br>• trafod plot ac adeiladwaith yn foddhaol<br>• dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriadau<br>• dechrau dangos ymwybyddiaeth o'r themâu a'u datblygiad yn y testun | 18 – 20 |
| AA2 | • gallu cyfeirio at y ffynhonnell brintiedig a'r ffilm<br>• defnyddio rhai termau gwerthfawrogi llunyddiaeth/llenyddiaeth<br>• adnabod ac ymdrin ag arddull, technegau a'r defnydd o iaith | 18 – 20 |
| | **28 – 35** | |
| AA1 | • arddangos gwybodaeth am y ffilm gan gyflwyno ffeithiau perthnasol yn gywir a chyfeirio lle bo hynny'n briodol at y stori a'r sefyllfa<br>• trafod y stori a sut mae'n datblygu<br>• trafod cymeriadau yn eithaf llawn gan roi manylion perthnasol amdanynt<br>• dechrau dangos peth ymwybyddiaeth o brif themâu'r ffilm | 14 – 17 |
| AA2 | • defnyddio ambell derm gwerthfawrogi llunyddiaeth/llenyddiaeth<br>• dangos peth dealltwriaeth o arddull, technegau a'r defnydd o iaith | 14 – 17 |
| | **22 – 27** | |
| AA1 | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y ffilm trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol a chyfeirio at y stori a'r sefyllfa<br>• tueddu i ailadrodd rhannau o'r stori<br>• trafod y cymeriadau a rhoi manylion amdanynt | 11 – 13 |
| AA2 | • cyfeirio at rai elfennau yn yr arddull, technegau neu ddefnydd o iaith | 11 – 13 |
| | **16 – 21** | |
| AA1 | • adrodd cynnwys y ffilm o ran y stori a'r sefyllfa<br>• ailadrodd ambell ran o'r stori<br>• cyflwyno cymeriadau gan roi rhai manylion amdanynt | 8 – 10 |
| AA2 | • adnabod ambell nodwedd amlwg yn yr arddull, technegau neu ddefnydd o iaith | 8 – 10 |
| | **8 – 15** | |
| AA1 | • peth gwybodaeth yn unig am y ffilm<br>• gallu adrodd peth o'r stori<br>• sôn yn arwynebol am ambell gymeriad | 4 – 7 |
| AA2 | • ymgais i adnabod ambell elfen yn yr arddull, technegau neu ddefnydd o iaith | 4 – 7 |
| | **0 – 7** | |
| AA1 | • gallu adrodd darn byr iawn o'r ffilm<br>• sôn yn arwynebol iawn am ambell gymeriad | 0 – 3 |
| AA2 | • ymateb yn arwynebol iawn i ambell elfen amlwg iawn yn yr arddull, technegau neu ddefnydd o iaith | 0 – 3 |

# TUDALEN WAG